**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gafodd ei gynnal ddydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2019 am 4.30pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd S. Bradwick |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd A Cox | Y Cynghorydd L Jones |

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Rheolwr y Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Mr A Morgan, Swyddog Gorfodi – Materion Trwyddedu
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu

**21 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P Howe ac S Morgans.

**22 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**23 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**24 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2019 yn rhai cywir.

**25 Adolygiad o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac o Ddeddf Gamblo 2005**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad

chwarterol i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd wrth y Pwyllgor fod y Datganiad Polisi Trwyddedu newydd ar gyfer 2020-2025 wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019 gyda'r bwriad y bydd y datganiad newydd yn dod i rym o 7 Ionawr 2020.

Adroddwyd y bu nifer uchel o Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro yn ystod y cyfnod, oherwydd digwyddiadau fel Cwpan Rygbi'r Byd, Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt yn ystod yr amser hwn.

Nid oedd unrhyw geisiadau a wrthwynebwyd i adrodd amdanynt ond roedd penderfyniad ynglŷn ag un apêl ers y cyfarfod diwethaf. Cafodd yr Aelodau wybod bod cyfnod ataliad Chicken and Kebab Land wedi'i ostwng yn dilyn yr Apêl, o dri mis i bythefnos. Cafodd yr aelodau eu cyfeirio at adran 4.3 yr adroddiad a oedd yn amlinellu canlyniadau archwiliadau eiddo a thorcyfraith. Mae'r lefel cyflawniad ar gyfer eiddo sydd wedi'u harchwilio yn parhau yn 91%, sy'n gyson â'r canlyniadau blaenorol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod Pub Watch Pontypridd wedi dod yn ail yng ngwobrau Pub Watch cenedlaethol blynyddol, gyda chydnabyddiaeth i'w waith yn diogelu pobl sy'n agored i niwed a'i berthynas waith agos gyda'r Ardal Gwella Busnes. Hefyd, cafwyd cadarnhad bod Pub Watch Trefforest, sy'n grŵp annibynnol, wedi ailddechrau.

Dywedwyd wrth yr aelodau am ganlyniad ymarfer gyda'r nos a gynhaliwyd gan swyddogion trwyddedu yn dilyn honiadau o yfed dan oed yn ardal Cwm Cynon. Cafodd gwybodaeth bellach am faterion eraill mewn perthynas ag eiddo yn Aberdâr ei hadrodd hefyd. O ganlyniad cafodd mesurau eu gweithredu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel Teledu Cylch Cyfyng a darpariaeth ar gyfer canfod cwsmeriaid sydd â chyllyll yn eu meddiant.

Adroddwyd ar nifer o faterion eraill ledled y Fwrdeistref Sirol megis materion parhaus ynglŷn â diffyg cydymffurfio yn ardal y Tymbl ym Mhontypridd.

I gloi, diweddarodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Pwyllgor ynglŷn â materion yn ymwneud â Deddf Gamblo 2005.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:-

(i) Nodi cynnwys yr adroddiad ar faterion Deddf Trwyddedu 2003, a gafodd ei ddarparu er gwybodaeth;

(ii) Nodi cynnwys Deddf Gamblo 2005, a gafodd ei ddarparu er gwybodaeth.

**26 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**27** **Trwyddedau a Chofrestriadau a roddwyd o dan ddarpariaeth Pwerau Dirprwyedig yn ystod y cyfnod: 26.08.19 - 27.11.19**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Pwyllgor am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod o 26 Awst 2019 i 27 Tachwedd 2019.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.45pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**